

Ry'n ni wedi cadw ffeiliau a elwir yn cwcis ar eich dyfais. Mae'r cwcis hyn:

- yn hanfodol i'r safle weithio

Byddem hefyd yn hoffi cadw rhai cwcis i'n helpu ni:

- i wella'n gwefan drwy gasglu ac adrodd gwybodaeth ar sut yr ydych yn defnyddio'r safle
- i deilwra cyfathrebu

Derbyn cwcis

Newid gosodiadau cwcis



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

English



» [Dilynwch y cyngor ar gyfer y coronafeirws \(COVID-19\)](#)

[Hafan](#) > [Hysbysiadau](#) > [Holl hysbysiadau](#) >

Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi data ynghylch dyfarniadau cymwysterau oherwydd y coronafeirws

DATGANIAD CABINET

Datganiad Ysgrifenedig: Newidiadau i'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi data ynghylch dyfarniadau cymwysterau oherwydd y coronafeirws

Kirsty Williams MS, y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd gyntaf: 3 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 3 Gorffennaf 2020

Pan gyhoeddais fod cyfres arholiadau haf 2020 wedi'i chanslo oherwydd y coronafeirws, dywedais hefyd na fyddem yn cyhoeddi mesurau perfformiad. Roedd y penderfyniad hwnnw'n ymwneud â'r holl fesurau perfformiad ysgolion ac ôl-16 ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/20.

Rhannu'r dudalen hon: [Twitter](#) [Facebook](#) [Email](#)

Mae'n glir y bydd yr amharu parhaus ar ysgolion a darparwyr ôl-16 â goblygiadau i'r cymwysterau a ddyfernir y flwyddyn nesaf hefyd, yn enwedig i'r rheini sy'n gyrsiau dwy flynedd. Felly, dyma roi gwybod i chi nawr y bydd y penderfyniad i atal y trefniadau arferol ar gyfer mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a'r chweched dosbarth yn ymestyn i flwyddyn academiaidd 2020/21.

Yn y sector ôl-16, bydd effaith wahanol ar ddarparwyr (dosbarthiadau chwech, sefydliadau AB, dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion) a rhaglenni gwahanol. Bydd rhai deilliannau yn 2020/21 yn adlewyrchu rhaglen dwy flynedd, a bydd eraill yn seiliedig ar flwyddyn o astudio. Felly, byddwn yn mynd ati i ystyried y ffordd orau o ymdrin â'r mesurau perfformiad ôl-16 yn 2020/21. Byddwn yn ymgynghori â'r sector cyn gwneud unrhyw benderfyniad pendant, er mwyn ystyried beth fyddai'n ddefnyddiol i'w helpu gyda'u prosesau monitro a sicrwydd ansawdd eu hunain.

Bydd yn ofynnol i bob ysgol a darparwr ôl-16 barhau i gynnal hunanwerthusiad effeithiol ar gyfer gwella'n barhaus. Mae ein trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd ni'n gofyn iddynt ystyried ystod eang o wybodaeth sy'n berthnasol i gyd-destun yr ysgol eu hun wrth hunanwerthuso a nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella. Golyga hyn y bydd ysgolion, gyda chymorth yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol, yn defnyddio'r gwybodaeth sydd ganddynt ar lefel disgyblion am gyrrhaeddiad a deilliannau eraill i fyfyrion ar eu trefniadau presennol a'u gwella.

Yn 2020/21, fel ar gyfer 2019/20, ni fydd y data ynghylch dyfarniadau cymwysterau yn cael eu defnyddio i adrodd ar ddeilliannau cyrrhaeddiad ar lefel ysgol, awdurdod lleol neu gonsortia rhanbarthol, ac ni cheir eu defnyddio i ddal ysgolion i gyfrif am ddeilliannau eu dysgwyr. Rwyf eisoes wedi rhoi sicrwydd na fydd y dyfarniadau'n cael eu defnyddio yn y modd hwn, ac roedd hyn yn hanfodol i sicrhau bod modd dyfarnu canlyniadau teg i ddysgwyr sy'n seiliedig ar raddau a aseswyd gan ganolfannau, a bennwyd heb y pwysau sy'n gysylltiedig â mesurau perfformiad neu drefniadau atebolrwydd.

Rwy'n hyderus y bydd y dyfarniadau a roddir eleni yn deg ac yn gadarn. Bydd iddynt yr un gwerth â'r rheini a gyflawnwyd gan unrhyw gohort arall, a byddant yn cael eu cyhoeddi fel Ystadegau Swyddogol, ar lefel genedlaethol, na fydd yn cynnwys mesurau perfformiad.

Cyhoeddwyd gyntaf

3 Gorffennaf 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

3 Gorffennaf 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

← Rhannu'r dudalen hon

▲ Nôl i dop y dudalen

[Cysylltu â ni](#) [Hygyrchedd](#) [Datganiad hawlfraint](#) [Cwcis](#) [Preifatrwydd](#) [Telerau ac amodau](#)



Llywodraeth Cymru
Welsh Government